# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**09.12.24**




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's greeting

Mae'n arwydd o brysurdeb wythnos ddiwethaf taw ar Ddydd Llun mae'r Cylchlythyr hwn yn eich cyrraedd! Un o uchafbwyntiau'r wythnos yn sicr oedd **Gwasanaeth Goffa** arbennig iawn i gofio am **Drychineb y Lan**. Diolch o galon i ddisgyblion 4C am gymryd rhan mewn ffordd mor urddasol ac ystyrlon, i Mr Jones am baratoi'r disgyblion mor drylwyr ac i deuluoedd 4C am gefnogi. Mae hwn yn achlysur cymunedol blynyddol sydd yn bwysig iawn i'r pentref ac i gymuned yr ysgol ac rydym yn ddiolchgar am allu gydweithio ag eraill o fewn ein cymuned i drefnu'r achlysur.

Bu **Ffair Nadolig** yr ysgol nos Wener yn lwyddiant ysgubol a hyfryd eto oedd gweld cymaint o gymuned yr ysgol yn dod ynghyd. Mae cyfanswm yr elw a godwyd yn y Ffair yn gwbl syfrdanol ac yn dyst i'r paratoi gofalus a thrwyadl a bu gan bwyllgor gweithgar y **Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**. Diolch i'r pwyllgor ac i bawb a gyfrannodd ac a helpodd mewn unrhyw ffordd, a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Edrychwch isod i weld faint godwyd ↓↓ Anhygoel!

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich croesawu i'n Sioeau Nadolig Dydd Mercher a Dydd Iau yn Capel Bethlehem. Mae'r paratoadau yn eu hanterth a'r cyffro'n fawr! Mae ambell docyn yn parhau – ffoniwch swyddfa'r ysgol os hoffech rai ychwanegol.

Ac wrth i ni gofio am wir ystyr y Nadolig, cofiwch am syniadau dyddiol ein Calendr Adfent Caredigrwydd. Hyfryd iawn yw gweld a chlywed y plant yn rhannu eu caredigrwydd gyda'r tasgau dyddiol. Daliwch ati!

\- - - - - - - -

It's a sign of a busy week that it is Monday by the time this Newsletter reaches you! One of the highlights of last week was our very special Memorial Service to remember The Lan Disaster. A heartfelt diolch to 4C pupils for taking part in such a dignified and thoughtful manner, to Mr Jones for preparing the pupils so thoroughly and to the families of 4C for supporting. This annual community occasion is very important to the whole village and to the school community and we are grateful to be able to work with others within our community to organise the memorial.

The school's **Christmas Fair** on Friday night was a huge success and it was wonderful again to see so much of our school community coming together. The total raised at the Fair is staggering and testament to the careful and thorough preparation the PTA. Diolch the committee and to all who contributed and helped in any way, and diolch to all who came to support. Scroll down to see how much was raised ↓↓ Amazing!

We are very much looking forward to welcoming you to this week's Christmas Shows at the Chapel. Preparations are in full swing and the excitement high! We have a few tickets remaining - please call us if you would like any more. Finally, as we remember the true meaning of Christmas, remember the daily thoughts on our Kindness Advent Calendar. It is wonderful to see and hear the children share their kindness with the daily tasks. Daliwch ati!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**11.12.24 a 12.12.24**
Gwasanaethau Nadolig
Christmas Services

**13.12.24**
Diwrnod Siwmper Dolig a Cinio Dolig
Christmas Jumper Day and Christmas Dinner

**17.12.24**
Theatr y Sherman (Meithrin)
Sherman Theatre (Nursery)

**18.12.24**
Sherman Theatre (2E)

**18.12.24** (1.30 – 3pm)
Gweithdy rhieni meithrin
Nursery parents' workshop

**19.12.24**
Sioe Cyw (Derbyn)

**20.12.24**
Diwrnod ola'r tymor
Last day of term

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.

Gwasanaeth Goffa Y Lan 6.12.24

Y Lan Memorial Service 6.12.24













Mae lle ar gyfer gwersi llais a piano ym mis Ionawr….

Spaces for piano and voice lessons in January….

